# Adroddiad Gwerthuso y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

Crynodeb Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 91/2014

Yr adroddiad hwn, a baratowyd gan Old Bell 3 Cyf, yw'r cyntaf o dri adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad annibynnol o gyllid myfyrwyr Addysg Bellach ar draws Cymru yn seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2013 a Mehefin 2014. Mae'r adroddiad yn adolygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cynllun LCA ac i ba raddau y mae'n cyfrannu at bolisïau Llywodraeth Cymru o ehangu cyfranogiad o fewn addysg bellach.

## Cefndir

1. Mae'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) yn lwfans ariannol sydd ar gael i bobl ifanc 16, 17 ac 18 oed sy'n byw yng Nghymru fel cymhelliant iddynt barhau mewn addysg ar ôl oedran gadael ysgol gorfodol. Nod gwreiddiol yr LCA oedd ymdrin â'r cysylltiad rhwng incwm isel a chyfranogiad isel drwy roi cymhelliant ariannol i bobl ifanc o aelwydydd incwm isel i barhau mewn addysg lawn-amser tu hwnt i addysg orfodol[1].

2. Cyflwynwyd yr LCA yn gyntaf i fyfyrwyr 16 oed yn 2004/05 a'i ymestyn i gynnwys myfyrwyr 17 oed y flwyddyn ganlynol (2005/06) a myfyrwyr 18 oed yn ystod 2006/07. Ar hyn o bryd mae'n lwfans wythnosol o £30 y myfyriwr, ac yn gysylltiedig â phresenoldeb boddhaol a chyflawni nodau dysgu a gytunwyd. Caiff ei dalu bob bythefnos i fyfyrwyr cymwys sy'n mynychu ysgolion neu sefydliadau addysg bellach cydnabyddedig yng Nghymru neu fan arall yn y Deyrnas Unedig.

Llywodraeth Cymru (2009) 'Buddsoddi mewn Sgiliau: Blaenoriaethau Sector Cyllid, Polisi Ffioedd a Chymorth Ariannol i Ddisgwyr' Dogfen Ymgynghori, t.33

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

3 Mae incwm aelwyd hefyd yn faen prawf ar gyfer dyfarnu cymorth LCA ac ar hyn o bryd dim ond os yw incwm eu haelwyd yn £20,817 neu lai y gall fyfyrwyr dderbyn cymorth (os mai dim ond un plentyn dibynnol sydd yn yr aelwyd) neu £23,077 neu lai os oes un neu fwy o blant dibynnol ychwanegol 16 oed neu iau neu 20 neu iau ac mewn addysg neu hyfforddiant llawn-amser ac yn gymwys am fudd-dal plant yn yr aelwyd.

4 Cyflwynwyd yr LCA yng Nghymru i gyd-daro gyda'i gyflwyno yn nhair gwlad arall y Deyrnas Unedig a chytunodd cynrychiolwyr Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r holl weinyddiaethau datganoledig y byddai cymorth o gynlluniau LCA ar gael i fyfyrwyr o bob rhan o'r Deyrnas Unedig yn ôl eu man astudio, ac nid lle maent yn breswyl fel arfer. Fodd bynnag cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2010 y byddai cynllun Lloegr yn dod i ben ddiwedd Awst 2011 (er ei fod yn dal i fod ar gael yn yr Alban a Gogledd Iwerddon).

**Dull**

5 Mae'r fethodoleg a'r rhaglen waith sy'n sail i'r rhaglen wedi cynnwys:

- Cam dechreuol a chwmpasu, oedd yn cynnwys cyrchu dogfennau allweddol, data gweinyddol a setiau data myfyrwyr y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr;
- Ymchwil desg oedd yn cynnwys adolygu polisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, darpariaeth cymorth ariannol arall i fyfyrwyr Addysg Bellach ac adroddiadau eraill yn gwerthuso cyllid myfyrwyr Addysg Bellach;
- Paru cofnodion myfyrwyr y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr gyda chronfa ddata Ehangu Mynediad[1] a chynnal dadansoddiad disgrifiadol cynhwysfawr a modelu'r data.

[1] Cronfa ddata gysylltiedig o ddata ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch a baratowyd gan WISERD ac a ddefnyddir mewn prosiect a ariannwyd gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol/ Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru sy'n anelu i olrhain cynnydd myfyrwyr o addysg orfodol i addysg uwch.

Tanseiliwyd cywirdeb y dadansoddiad ansoddol gan anhawster penderfynu'n ddigamsyniol os oedd myfyriwr yn derbyn LCA ai peidio. Roedd hyn oherwydd problemau'n gysylltiedig â gorchudd data LCA (ni roddodd pawb sy'n derbyn LCA ganiatâd i'w data gael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion ymchwil) a'r ffaith nad oedd yn bosibl paru cofnodion pob unigolyn. Fodd bynnag, roedd y gyfradd paru a sicrhawyd yn dderbyniol, sef 66% (gweler yr Atodiad Technegol ar gyfer trafodaeth lawn o'r problemau a gafwyd wrth baru a dadansoddi data).

- Datblygu offerynnau ymchwil i'w defnyddio gyda rhanddeiliaid, canolfannau dysgu a myfyrwyr yn ogystal â chyfweleion polisi yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cyflwynir yr offerynnau ymchwil yn yn Rhan D yr Atodiad Technegol;
- Pecyn o waith maes mewn 12 sefydliad addysg bellach yng Nghymru ac 11 ysgol oedd yn cynnwys cyfweliadau gyda staff a gwahanol grwpiau ffocws gyda rhai'n derbyn LCA a heb fod yn derbyn LCA;
- Cyfweld â rhanddeiliaid eraill a dau Sefydliad Addysg Bellach arall lle nad oedd neb yn derbyn LCA[2];
- Arolwg ffôn ansoddol o 30 o rai a dderbyniodd LCA yn flaenorol (20 o Sefydliadau Addysg Bellach a 10 o ysgolion);
- Arolwg ffôn ansoddol gyda 16 o rieni myfyrwyr sy'n derbyn LCA ar hyn o bryd;
- Ymweliadau i dri sefydliad yn ardal y Gororau a chyfweld â staff yn ogystal â myfyrwyr oedd yn derbyn LCA a myfyrwyr heb fod yn derbyn LCA.

**Canfyddiadau Allweddol**:

6 Mae cynllun LCA wedi hen ennill ei blwyf. Caiff tua hanner yr holl fyfyrwyr llawn-amser a ddaw o fewn meini prawf oedran LCA eu cefnogi drwy'r LCA, gyda'r gyfran yn amrywio rhwng traean o fewn ysgolion i ddau-draean mewn sefydliadau Addysg Bellach. Canfu ein dadansoddiad fod benywod yn fwy tebygol o fod wedi derbyn

[2] Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) a Choleg Cymunedol yr YMCA.

LCA a bod ganddynt hawl hefyd i brydau ysgol am ddim a'u bod yn llai tebygol o fod wedi cyflawni lefelau cymharol uchel o gyrhaeddiad mewn TGAU. Mae 40 y cant o'r rhai sy'n derbyn LCA yn ymrestru ar gyfer Safon Uwch tra bod 47 y cant yn ymrestru am gymwysterau galwedigaethol[3] - 13 y cant ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar lefel 3 neu 4 a 30 y cant ar gyfer cymwysterau ar Lefel 2 neu is[4].

7 Gwariwyd £25 miliwn ar y Cynllun LCA yng Nghymru yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf (2012/13) gan roi cymorth i ychydig dros 30,000 o fyfyrwyr, yn gyfwerth â £826 fesul myfyriwr a gafodd LCA.

8 Canfu ein hymchwil fod yr LCA yn cefnogi ac yn cyfrannu tuag at ystod o bolisïau Llywodraeth Cymru sy'n anelu i ehangu mynediad i addysg, gostwng y gyfradd o bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ac ymdrin â'r cysylltiad cyfredol rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Nid yw wedi alinio cystal ag amcan Llywodraeth Cymru o wella symud ymlaen i addysg uwch.

9 Er bod cyfyngiadau'n ymwneud â chwmpas y dadansoddiad ansoddol, mae dadansoddiad a modelu data a barwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac Ehangu Mynediad wedi daparu darlun manwl o nodweddion a chyrhaeddiadau addysgol y rhai sy’n derbyn LCA. Ar y cychwyn, mae derbyn LCA yn arwydd ynddo’i hun fod y person ifanc dan anfantais economaidd. Yn yr un modd mae fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn gysylltiedig â pherfformiad addysgol is ymhlith plant o oedran addysg orfodol, mae person ifanc sy’n derbyn LCA yn fwy tebygol o arddangos perfformiad addysgol is na myfyrwyr sydd heb fod dan anfantais economaidd. Caiff hyn ei gadarnhau gan

[3] Oherwydd cyfyngiadau yr ymarferiad paru data ar gyfer yr astudiaeth, ni fedrid dynoi cwrs astudiaeth y 13% arall a dderbyniodd LCA.

[4] Roedd gweddill y myfyrwyr yn astudio cyrsiau chweched dosbarth galwedigaethol neu gyrsiau cyfuno galwedigaethol eraill.

ganfyddiadau’r dadansoddiad ansoddol:

- Mae rhai sy'n derbyn LCA yn fwy tebygol na rhai nad ydynt yn derbyn LCA i ymrestru mewn addysg bellach (ysgol neu sefydliad Addysg Bellach) yn y mis Medi ar ôl eu blwyddyn 11. Mae'r rhai nad ydynt yn derbyn LCA yn fwy tebygol o ymrestru ar ôl rhai misoedd allan o addysg;
- Roedd myfyrwyr oedd yn derbyn LCA a hefyd brydau ysgol am ddim yn llai tebygol o symud ymlaen i Safon Uwch na myfyrwyr a dderbyniodd yr un o’w lwfansau hyn. Roedd myfyrwyr a dderbyniodd LCA ond nad oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn y canol rhwng y ddau grŵp yma, gan ddangos eu hamgylchiadau economaidd cymharol. Arsylwyd yr un patrwm o ran cyrhaeddiad Safon Uwch;
- Ymysg myfyrwyr sy'n astudio am gymwysterau heblaw Safon UG/Safon Uwch o fewn Addysg Bellach, parhaodd y rhai a dderbyniai LCA eu hastudiaethau Addysg Bellach am fwy o amser na rhai nad oedd yn derbyn LCA. Yn y grŵp dim Safon Uwch yma, mae myfyrwyr oedd yn derbyn LCA ond nad oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim unwaith eto yn y canol rhwng y ddau grŵp yma;
- Mae myfyrwyr sy'n derbyn LCA ac yn astudio am gymwysterau heblaw Safon UG/Safon Uwch o fewn Addysg Bellach yn fwy tebygol o gyflawni dyfarniad Lefel 3 neu uwch na'r rhai nad ydynt yn derbyn LCA. Yn yr un modd, mae myfyrwyr sy'n derbyn LCA sy'n dilyn cymwysterau heblaw Safon UG/Safon uwch o fewn Addysg Bellach yn fwy tebygol na rhai nad ydynt yn derbyn LCA i ennill cymwysterau tu hwnt i'w nod mynediad gwreiddiol;
- Ymysg myfyrwyr yn astudio am Safon Uwch, roedd rhai'n derbyn LCA yn llai tebygol o gymryd rhan

mewn addysg uwch na rhai heb fod yn derbyn LCA, unwaith eto'n adlewyrchu eu hamgylchiadau economaidd cymharol.

10 Dangosodd ein gwaith maes ansoddol fod mwyafrif llethol yn credu fod angen pendant am y Cynllun LCA i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel mewn addysg ôl-orfodol. Roedd hefyd alwad cryf am barhau'r cynllun yn y dyfodol, er y cafodd hyn ei gymysgu gyda barn rhai o'r cyfranwyr yn yr ymchwil y byddai system ar ddisgresiwn yn seiliedig ar asesiad o anghenion unigol yn well (a barn ymysg rhai myfyrwyr y dylai LCA fod ar gael i bawb). Teimlid mai cyfran fach iawn yn unig o fyfyrwyr oedd yn ymrestru ar eu cyrsiau yn un swydd i dderbyn LCA, yn hytrach na'u galluogi i ddysgu. Teimlid fod ychydig o blith y grŵp yma yn ymyrryd ar fyfyrwyr eraill.

11 Er y credid bod y cynllun LCA yn gydnaws iawn â'r cymorth ariannol arall oedd ar gael ar gyfer addysg bellach, roedd galwad cryf o'r sector am alinio trothwyon incwm aelwydydd ar gyfer cynlluniau megis LCA a Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach).

12 Credid nad oedd y newidiadau a fu i'r cynllun LCA yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (yn arbennig ddileu'r lwfansau is a'r taliadau bonws) wedi cael effaith sylweddol ar gyfranogiad myfyrwyr mewn addysg ôl-orfodol. Fodd bynnag cafwyd sylwadau cymysg gan gyfranwyr am ddileu'r taliadau bonws oedd ar gael yn flaenorol.

13 Yn bennaf gwelsom fod y myfyrwyr hynny sydd fwyaf mewn angen yn cael eu cefnogi drwy'r Cynllun er bod tystiolaeth i awgrymu y gellid targedu'r Cynllun yn well yn y dyfodol gan fod peth o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion heb fod yn hanfodol. Er bod galwad cryf o fewn y sector am ddyrannu cyllid drwy ddull asesu mwy unigoledig, cydnabuwyd yn eang fod

profion modd ar incwm aelwydydd yn ddull ymarferol ac effeithiol o ddyrannu cymorth ariannol.

14 Dangosodd y gwaith maes fod y gyfradd sengl gyfredol o lwfans o £30 yn rhesymol ac nid oedd awydd gostwng y gyfradd yma yn y dyfodol.

15 Canfu ein hymchwil fod lefel cyffredinol dda o ymwybyddiaeth o'r cynllun LCA ar draws y sector ysgolion a'r sector Addysg Bellach a bod canolfannau dysgu wedi gwneud ymdrechion priodol i hyrwyddo'r cynllun. Ystyrid bod y broses gais yn weddol syml yn gyffredinol, er yr ymddangosai mai rhieni a gwarcheidwaid oedd yn bennaf gyfrifol am y cais am yr LCA ei hunan. Fodd bynnag roedd cyflwyno tystiolaeth wreiddiol i gefnogi ceisiadau yn achosi mwy o anawsterau ar gyfer ymgeiswyr am LCA.

16 Gwelsom na ystyriwyd fod cytundebau dysgu LCA a lofnodwyd rhwng canolfannau dysgu a'r sawl a dderbyniai LCA yn neilltuol o ystyrlon. Er y credai'r rhan fwyaf o randdeiliaid, ymarferwyr, mwyafrif a rhieni bod y gofynion presenoldeb i gymhwyso am daliadau yn cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb a phrydlondeb ymysg y derbynwyr, gwelsom wahaniaethau sylweddol rhwng canolfannau dysgu yn nhermau gofynion presenoldeb a osodwyd ar gyfer myfyrwyr er mwyn derbyn taliadau. Ymhellach mabwysiadodd canolfannau dysgu wahanol brosesau ar gyfer monitro presenoldeb. Er enghraifft nid oedd pob myfyriwr a gymerodd ran yn ein hymchwil yn medru cael mynediad i'w cofnodion presenoldeb cyn i daliadau gael eu gwneud neu eu hatal. Materion yn ymwneud â chofrestru am wersi (lle'r oedd hyn wedi arwain at beidio talu LCA) oedd y ffynhonnell fwyaf o anfodlonrwydd i dderbynwyr LCA a gymerodd ran yn ein hymchwil. Ar y llaw arall, soniodd canolfannau dysgu am y pwysau a roddodd derbynwyr LCA a'u rhieni arnynt i gymeradwyo taliadau LCA er

gwaethaf problemau'n ymwneud ag absenoliaeth.

17 Er y canfuwyd y defnyddiwyd cyllid LCA ar gyfer dibenion addysgol yn bennaf, gwelsom beth defnydd o'r cyllid ar gyfer dibenion heb fod yn hanfodol, gan awgrymu y gall y cymorth fod yn 'braf i'w gael' i rai myfyrwyr.

18 Yn nhermau'r gwahaniaeth a wnaed, gwelsom tra bod cynnig posibl LCA yn ystyriaeth bwysig i fyfyrwyr, y byddai mwyafrif y derbynwyr LCA a gyfrannodd at yr astudiaeth (80%) wedi ymrestru ar eu cwrs beth bynnag - gyda'r rhai mewn chweched dosbarth yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny na'r rhai mewn addysg bellach. Credai cyfranwyr hefyd fod LCA yn cael effaith gadarnhaol ar ehangu cyfranogiad (o gofio am ei ffocws ar fyfyrwyr o aelwydydd incwm isel) a gwella cyfraddau cadw yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a phrydlondeb. Roedd mwy o wahaniaeth barn a oedd LCA yn gwneud gwahaniaeth i gyrhaeddiad a chyflawniad myfyrwyr - er na wnaeth ein gwaith ansoddol roi llawer o dystiolaeth gadarn yn y cyswllt yma, roedd ymarferwyr yn frwd i roi sylw i'r ffaith fod ymchwil bresennol ar draws y boblogaeth myfyrwyr yn fwy cyffredinol yn dangos fod presenoldeb uwch yn arwain at well cyrhaeddiad.

19 Yn olaf, gwyddys fod traean o dderbynwyr LCA yn symud ymlaen i addysg uwch. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o naill ai'r gwaith maes ansoddol na'r dadansoddiad ansoddol ar gyfer yr astudiaeth yma i awgrymu fod y cynnig o LCA yn effeithio ar symud ymlaen i addysg uwch.

20 Mae ein hadolygiad o gymorth ariannol i fyfyrwyr 16 i 19 oed y tu allan i Gymru, yn cynnwys canfyddiadau allweddol o werthusiadau trylwyr a gynhaliwyd ar draws Lloegr[5], yr

[5] E.e. Adroddiad Ymchwil 678: Gwerthusiad o Gynlluniau Peilot Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Canolfan Ymchwil mewn Polisi Cymdeithasol (CRISP) a Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS) ar

Alban ac Iwerddon yn ategu ein prif ganfyddiadau yn yr arolwg yma. Canfu'r gwerthusiadau hyn bod:

- LCA yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau cyfranogiad, gan gynyddu cyfranogiad gan rhwng 4 pwynt canran a 9 pwynt canran, yn dibynnu ar y grŵp blwyddyn ac astudiaeth. Yn gyffredinol nid oedd y cyfraddau is (e.e. £20 neu £10) yn effeithlon wrth gymell cyfranogiad;
- Dim ond ar gyfer lleiafrif o fyfyrwyr sy'n ei dderbyn y mae LCA yn ffynhonnell hanfodol o gymorth ariannol. Byddai cyfran uchel o dderbynwyr wedi ymrestru mewn addysg ôl-orfodol beth bynnag, yn neilltuol o fewn gosodiad chweched dosbarth ysgol. Mewn gwirionedd mae LCA yn gweithredu fel cymhelliant gwrthnysig ar gyfer lleiafrif bach o fyfyrwyr (h.y. ymddengys mai dim ond ar gyfer derbyn y lwfans y mynychant addysg bellach yn hytrach na hawlio'r lwfans ar gyfer diben cefnogi eu haddysg);
- Mae cynlluniau LCA yn gyffredinol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gyfraddau cadw myfyrwyr, ac nid oes unrhyw awgrym fod unrhyw stigma yn gysylltiedig â derbyn lwfans LCA;
- Mae'r dystiolaeth ar effaith LCA ar lefelau cyrhaeddiad yn amhendant, ac nid oes tystiolaeth i awgrymu fod LCA yn arwain at gyfraddau uwch o gyfranogiad mewn addysg uwch. Fodd bynnag mae'r lwfans yn tueddu i ostwng yr angen i'r sawl sy'n derbyn LCA i weithio'n rhan-amser tra maent yn astudio.

**Argymhellion**

21 Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o wyth argymhelliad sef:

---

gyfer yr Adran Addysg a Sgiliau (2005) hefyd Gwerthusiad LCA o Gynllun Peilot Dwyrain Ayrshire, Canolfan Cymdeithaseg Addysgol (CES), Prifysgol Caeredin ar gyfer Scottish Social Research: Summary (2002).

**Argymhelliad 1**

Y dylid cadw'r cynllun LCA ond y dylid targedu cyllid yn well at y myfyrwyr sydd yn yr angen mwyaf. Gellid cyflawni hyn drwy ostwng trothwy incwm aelwyd i fod yn gymwys am gymorth LCA, yn unol â'r trothwy incwm ar gyfer Cynllun Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru[6] (sydd yn £18,371 ar hyn o bryd, bron £2,500 yn is na throthwy LCA). Argymhellwn gadw'r trothwy incwm dwy-haen i gyfrif am siblingiaid o fewn y cynllun LCA ond y dylid gostwng y trothwy yn unol â'r gostyngiad cyffredinol. Argymhellwn hefyd y dylid cadw'r arbedion ariannol a geir fel canlyniad i'r newidiadau hyn o fewn y system cyllid myfyrwyr a'i ddosbarthu drwy ddull asesu mwy unigoledig, gan felly gadw gwariant ar ei lefel bresennol, eto'n ei gwneud yn bosibl i dargedu'r lwfans. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad effaith i ddynodi nifer yr ymatebwyr y byddai'r newid yma'n effeithio arnynt a'r swm o arian fyddai'n cael ei ryddhau;

**Argymhelliad 2**

Bod cynllun LCA yn parhau i fod ar gael i fyfyrwyr mewn gosodiadau ysgol ac addysg bellach i gadw cynnig teg yn y ddau osodiad.

**Argymhelliad 3**

Cadw lefel lwfans LCA ar ei lefel bresennol o £30 yr wythnos a bod cyfradd sengl y lwfans yn cael ei seilio ar lefelau boddhaol o bresenoldeb yn ogystal â chyflawni amcanion dysgu a gytunwyd fel y'u nodwyd mewn cytundebau dysgu.

**Argymhelliad 4**

Bod symleiddio ar y broses gais ar gyfer ystod o gronfeydd cyllid myfyrwyr ar draws addysg bellach, yn neilltuol y Lwfans Cynhaliaeth Addysg a FCF. Awgrymwn symleiddio'r prosesau cais ar gyfer cymorth myfyrwyr Addysg Bellach fel y gellir rhannu cais yn ogystal â thystiolaeth ategol ar gyfer unrhyw un gynllun a'u cludo'n awtomatig i eraill ar draws y sector Addysg Bellach. Argymhellwn ymhellach fabwysiadu proses gais ar-lein ac ystyried sut y gall y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr rannu gwybodaeth ynghylch statws cais myfyriwr gyda'u canolfan ddysgu.

**Argymhelliad 5**

Bod cytundebau dysgu yn cael eu

[6] Cynllun Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru a ddisodlodd Grant Dysgu (Addysg Bellach) y Cynulliad o fis Medi 201 ymlaen.
.

cryfhau a'u gwneud yn fwy ystyrlon. Byddai hyn yn cynnwys dynodi pa rôl y dylai pob canolfan ddysgu ei chael fel rhan o'r cytundeb a sut mae'r cytundebau dysgu yn cyfeirio at godau ymddygiad sefydliadau. Gellid hefyd gryfhau cytundebau dysgu drwy nodi'r gofynion am bresenoldeb o fewn y dogfennau.

**Argymhelliad 6**

Bod canolfannau dysgu yn mabwysiadu polisïau mwy cyson yng nghyswllt gofynion presenoldeb derbynwyr LCA yn ogystal â mwy o gysondeb yn eu harferion i fonitro presenoldeb. Byddai hyn yn arwain at ddarpariaeth decach i dderbynwyr LCA, yn neilltuol yn ymwneud â diffyg presenoldeb oherwydd salwch. Ymhellach credwn fod mwy o gwmpas i ganolfannau dysgu ddefnyddio rhai o'r arferion da sy'n bodoli o fewn y sector ar hyn o bryd yn nhermau monitro presenoldeb.

**Argymhelliad 7**

Edrych eto ar y dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â'r Cynllun LCA ac yn y dyfodol bod dangosyddion yn adlewyrchu'n well y canlyniadau y bwriedir i'r Cynllun eu cyflawni - yn bennaf yn nhermau cyfraddau cwblhau a chyrhaeddiad i dderbynwyr. Yn eu tro byddem yn disgwyl iddi fod yn ofynnol i ganolfannau dysgu fonitro a chasglu'r allbynnau hyn er mwyn adrodd ar gwblhad a chyflawniadau derbynwyr LCA mewn addysg ôl-orfodol.

I gael mwy o wybodaeth cysyllter â:

Sara James
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6812
sara.james@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 23 Hydref 2014
ISBN: 978-1-4734-2407-4

© Hawlfraint y Goron 2014